# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 25ain Ebrill 2016 am 7pm

Presennol: Ieu Thomas, Alan Hugh Jones, Cyng. Bethan Lawton, George Evans, Richard Evans, Peter Parker, Arwel Pierce (Clerc),

Ymddiheuriad: Neb

Estynnwyd croeso i bawb gan y Cadeirydd

Datgan diddordeb: Dim.

Derbyniwyd llythyr ymddiswyddiad Cyng. George Evans. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad.

Yn anffodus, roedd aelodau o'r cyhoedd wedi penderfynu cynnal cyfarfod sefydlu Neighbourhood Watch y pentref ar yr un amser. Mynychodd y Cadeirydd AHJ gychwyn y cyfarfod i ddangos cefnogaeth i'r prosiect.

Cydymdeimlwyd â theulu Alan Hugh Jones yn eu profedigaeth.

1. **Darllenwyd cofnodion** 21ain Mawrth 2016 a'u cael yn gywir. Cynigwyd gan BL; Eiliwyd gan IT; Llofnodwyd gan y Cadeirydd

2. **Materion yn codi.**
   - Swydd Clerc;
   
   Eglurodd RAP ei fod wedi cysylltu â Chlerc Cyngor Tref Tywyn - angen aros eto am ei ymateb. Wedi trafodaeth penderfynwyd hysbysebu'r swydd unwaith eto yn y Cambrian News, ar y Safle We, ac ar yr hysbysfwrdd. Dyddiau cau 12/05/16. Angen dileu'r cyfeiriad at ddwyieithrwydd. Cynigwyd RE; Eiliwyd: BL
   - Clwb Pêl droed:
   
   BL wedi derbyn siec gwerth £400.
   AHJ wedi sylwi fod bonion rhai o'r polion sy'n rhedeg gyfochrog â'r cae wedi pydru. Clerc i gysylltu â Chadeirydd y Clwb gan ofyn iddynt adnewyddu fel bo'r angen.
   - Mynedfa ar Ffordd Tynllwyn:
   
   Darllenwyd llythyr gan y Parc Cenedlaethol yn datgan y byddent yn monitro'r sefyllfa.
   - Llwybr beicio:
   
   Adrian Williams yn ei lythyr yn addo y byddent yn cysylltu â'r tirfeddiannwr.
   - Wal yr Eglwys:
   
   Adrian Williams yn addo yn ei lythyr y byddai Cyngor Gwynedd yn rhoi sylw i'r wal am eleni yn unig ond y bydd angen cysylltu â'r perchennog o hyn ymlaen.

3. **Cae Chwarae:**
   - Nodwyd nad oedd pwyllgor y Ganolfan wedi clirio ardal y Tân Gwyllt yn ddigon da. Y Clerc i gysylltu â'r pwyllgor.
   - ROSPA: Bwriadu ymweld i gynnal yr Archwiliad Blynyddol ym Mis Mehefin. Cost £90 + TAW
   - Bil Treth y Cyngor yn £704.70. BL am wneud ymholiadau ynglŷn â lefel y gwariant pe baen ni ddim yn codi tâl am fenthyg y cae/pafiliwn/

4. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:**
   - Cronfa Adnoddau Ysbyty Tywyn wedi talu am fath newydd. Cyfraniad o £11,000 tuag at y costau
   - Wedi trefnu cytundeb newydd ynglŷn â'r bin yn y Cae Chwarae.

5. **Llwybrau:**
   - Baw cŵn yn broblemus ar ffordd Penybont – Penparc;  Pentref Uchaf – Tan y Fedwen; Banc yr afon;

6. **Taliadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 25/04/2016 | Zurich Municipal | Siec 101492 | £574.25 (i'w haneru â Dolgoch) |
| 25/04/2016 | J.Roberts (Awdit) | Siec 101 493 | £ 55.00 |
| 25/04/2016 | Y Ganolfan (Llogi) | Siec 101494 | £ 12.00 |
| 25/04/2016 | Cyngor Gwynedd (Trethi) | Siec 101495 | £ 74.70 |

7. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol:**
   - Ffermwyr Ifanc Meirionnydd — £75.00 Cynigwyd IT; Eiliwyd RE;
   - Walk for Life — gadael ar y bwrdd

8. **Pont ar Ddyfi:**
   Gwahoddiad i aelodau fynychu cyfarfod yng Nghapel y Bedyddwyr Tywyn ar 03/05/2016 am 6pm

9. **Cyfarfod Blynyddol** i'w gynnal ar 16eg Mai 2016 am 7pm

## Minutes of a meeting held on Monday 25th April 2016 at 7pm

Present: Ieu Thomas, Alan Hugh Jones, Cllr. Bethan Lawton, George Evans, Richard Evans, Peter Parker, Arwel Pierce (Clerk)

Apology: None

A warm welcome was extended by the Chairman

Interest declared: None.

A letter of resignation was received by Coun.George Evans. He was thanked for his contribution.

Unfortunately, a public meeting to set up a 'Neighbourhood Watch' in the village at had been called at the same time. The Chairman AHJ attended the start of the meeting to show the Council's support for the project.

Condolences were extended to Alan Hugh Jones' family in their bereavement.

**1. The minutes** of 25th March 2016 were found to be correct. Proposed by BL; Seconded by IT; Signed by the Chairman

**2. Matters arising.**

• Position of Clerk;

RAP explained that he had contacted Tywyn Town Council's Clerk – we need to await his reaction. After discussions it was decided to advertise the post again in the Cambrian News, on the Website, and on the notice board.  Closing date - 12.05.16. Need to delete the reference to bilingualism.
Proposed RE; Seconded: BL

• Football club:

BL has received a check for £ 400.
AHJ has noticed that some of the poles that run parallel to the pitch are rotten. Clerk to contact the Chairman of the Club to ask them to replace as required.

• Entrance on Tynllwyn Road:

A letter was read from the National Park stating that they would monitor the situation.

• Cycle Track:

In his letter Adrian Williams states that they will contact the landowner.

•Church Wall:
In his letter Adrian Williams states that Gwynedd Council will see to the wall for this year only but hereafter the Council will need to contact the owner.

**3. Playground:**

• It was noted that the Ganolfan Committee had not cleared the area of the Bonfire well enough. The Clerk to contact the committee.

• ROSPA: Planning to conduct the Annual Inspection in June. Cost £ 90 + VAT

• The Council Tax bill is £ 704.70. BL to inquire about the cost if the Council was not to charge for hiring the pitch / pavilion /

**4. Councillor Report County**:

• Hospital Resources Fund has contributed £ 11,000 towards the costs of a new type bath.

• A new agreement regarding the bin at the Playground has been organized.

**5. Paths:**

• Dog fouling is problematic between Penybont- Penparc; Pentref Uchaf - Tan y Fedwen; the river bank;

**6. Payments:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 25.04.2016 | Zurich Municipal | Cheque 101492 | £ 574.25 (to halve with Dolgoch) |
| 25/04/2016 | J.Roberts (Audit) | Cheque 101493 | £ 55.00 |
| 25/04/2016 | Centre (Hiring) | Cheque 101494 | £ 12.00 |
| 25/04/2016 | Gwynedd Council (Taxes) | Cheque 101495 | £ 74.70 |

**7. Applications for Financial Assistance:**

| | | |
|---|---|---|
| • Young Farmers | £ 75.00 | Proposed IT; Seconded RE; |
| • Walk for Life | | Left on the table |

**8. Dyfi Bridge:**

Members are invited to attend a meeting at the Baptist Chapel in Tywyn on 05/03/2016 at 6pm

**9. Annual General Meeting** to be held on May 16$^{th}$ , 2016 at 7pm